

Dillad/Dathliadau/Diwylliant

Dw i'n gwisgo gwisg ffansi achos dw i'n mynd i'r carnifal yn Mombasa.

Mae pobl yn gwisgo pob math o ddillad yn y carnifal.

Dw i'n hoffi gweld pobl yn dawnsio a gwrando ar y gerddoriaeth.




Dw i'n gwisgo gwisg y llwyth. Dw i'n perthyn i lwyth y Masai.

Mae Mam wedi addurno fy wyneb gyda phatrymau.

Dw i'n gwisgo gemwaith lliwgar.

Dw i'n mwynhau dawnsio yn droednoeth i gerddoriaeth y drwm.



Gwyl Adrodd Stori Sigana (yn Nairobi)

Gwyl Bypedau Ryngwladol Kenya

Carnifal Mombasa

Gwyl Kijani - gwyl gerddoriaeth

Rasys Camelod Maralal

Diwrnod Jamhuri - diwrnod annibyniaeth cenedlaethol Kenya (12 Rhagfyr)

Ionawr				Chwefror				Mawrth			
Sul	Llyn	Mawr	Mawr	Sul	Llyn	Mawr	Mawr	Sul	Llyn	Mawr	Mawr
1	2	3	4	1	2	3	4	1	2	3	4
5	6	7	8	5	6	7	8	5	6	7	8
9	10	11	12	9	10	11	12	9	10	11	12
13	14	15	16	13	14	15	16	13	14	15	16
17	18	19	20	17	18	19	20	17	18	19	20
21	22	23	24	21	22	23	24	21	22	23	24
25	26	27	28	25	26	27	28	25	26	27	28
29	30	31		29	30	31		29	30	31	

Diwrnod Jamhuri - diwrnod annibyniaeth cenedlaethol Kenya (12 Rhagfyr)

- **Cyd-destun:** Dillad, dathliadau a diwylliant Kenya.

- **Ffeithiau:** Mae mwy na 40 grŵp ethnig/llwyth yn Kenya, a phob un o'r llwythau hynny â iaith ei hun. Mae pob un ohonyn nhw hefyd yn siarad Swahili. Mae yw enw iaith llwyth y Masai, sef un o lwythau mwyaf adnabyddus Kenya. Mae gan y Masai hefyd draddodiadau ac arferion unigryw – rhai o'r nodweddion mwyaf amlwg yw addurno'r croen, gwisgo gemwaith arbennig, adrodd straeon (e.e. *The Hunters and the Hartebeest*), dawnsio a llafarganu (e.e. *eoko* – dawns i fendithio gwartheg). Maen nhw hefyd yn yfed gwaed gwartheg – un ai wedi'i gymysgu â llaeth neu ar ei ben ei hun – oherwydd bod y gwaed yn llawn protein. Mae gwartheg, glaswellt, bywyd gwyllt a'r lliw coch yn gysegredig i'r Masai. Caiff nifer o ddathliadau eu cynnal yn ystod y flwyddyn yn Kenya, e.e. rasys camelod, gŵyl adrodd stori, gwyliau cerddorol, ac ati (gweler y calendr ar flaen y cerdyn). Mae cerddoriaeth ac adrodd straeon yn rhan bwysig o ddiwylliant Kenya – mae llwythau ar draws y wlad wedi defnyddio caneunon, straeon a cherddi i drosglwyddo eu hanes a'u traddodiadau i'r cenedlaethau nesaf ers canrifoedd. Mae llawer o arlunwyr enwog yn dod o Kenya hefyd, e.e. Seth Mshindi, Martin Bulinya a Jimnah Kimani.

- **Cyfeiriadau yn atlas 'O Bedwar Ban Byd 2':** tt. 2–3, 4–5 ac 8–9.

- **Sgiliau:** Archwilio, meddwl am gwestiynau; llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau, meddwl yn greadigol a dychmygus; perfformio symudiadau gan gynnwys rhai sy'n perthyn i ddawnsiau gwerin Cymreig a dawnsiau o ddiwylliannau eraill; datblygu eu dealltwriaeth o gynllunio, dylunio, modelu, addasu a myfyrio; datblygu rheolaeth gynyddol ar yr elfennau cerddorol wrth greu cerddoriaeth; gwrando ar amrywiaeth o straeon, chwedlau gwerin traddodiadol a cherddi o Gymru a gwledydd eraill y byd.

- **Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd:** Rhoi digwyddiadau, trefniadau arferol a newidiadau mewn trefn; dysgu sut mae pobl a lleoedd yn perthyn i'w gilydd.

- **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu:** Ymateb i straeon a cherddi o Gymru ac ystod o ddiwylliannau eraill.

- **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol:** Datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol ac anghenion, safbwyntiau a chredoau amrywiol pobl eraill sy'n perthyn i'w diwylliant nhw a diwylliannau eraill; datblygu hunanddelwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn fel aelod o wahanol gymunedau, a deall eu Cymreictod eu hunain.

- **Datblygiad creadigol:** Profi traddodiadau a dathliadau gwahanol ddiwylliannau; cael profiad o gerddoriaeth a dawnsiau o Gymru ac o ddiwylliannau eraill.

- **Cwestiynau i'w gofyn:** Pwy yw'r Masai? Beth mae Gitonga yn ei wisgo? Pam ei fod yn gwisgo fel hyn? Beth mae Amondi yn ei wisgo? Pam ei bod yn gwisgo fel hyn? Sut mae dillad llwyth y Masai yn wahanol i'ch dillad chi? A oes rhai pethau'n debyg rhwng y Cymry a'r Masai? (e.e. ffermio, dawnsio, cerddoriaeth, y Celtiaid yn arfer peintio wynebau) A yw patrymau'r Celtiaid a'r Masai yn debyg mewn unrhyw ffordd?

- **Tasgau ffocws/heriau:**

- Dylunio a chreu gwisg ffansi ar gyfer Carnifal Mombasa.
- Gwneud gemwaith Masai Affricanaidd (gyda gleiniau).
- Darlunio golygfeydd nodweddiadol yn Kenya, e.e. jiraff yn bwyta o goeden banana; ymladdwr Masai gyda'i waywffon a'i wallt wedi ei blethu; golygfa o bentref gyda thai wedi'u gwneud o fwd a gwellt; bugail yn gofalu am ei wartheg.
- Peintio wynebau â phatrymau tebyg i rai llwyth y Masai.
- Dysgu a pherfformio un o ddawnsiau syml y Masai.
- Perfformio cyfeiliant cerddorol i ddawns Masai gydag offerynnau taro.

- **Gwaith ymchwiliol/ymestynnol:**

- Cymharu dathliadau a dawnsiau Kenya gyda dathliadau a dawnsiau Cymru.
- Creu calendr o ddathliadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru.
- Chwilio am enwau pobl llwyth y Masai a dysgu ystyr yr enwau.
- Cymharu dulliau ffermio llwyth y Masai gydag arferion y Cymry a'r llwythau Celtaidd yn y gorffennol.
- Cymharu patrymau a gemwaith o Gymru â rhai Kenya, e.e. carthen Gymreig, gemwaith Celtaidd.
- Chwilio am straeon/chwedlau llwyth y Masai, e.e. *The Hunters and the Hartebeest* gan Charles Kabera; actio un ohonyn nhw.

- **Adnoddau:** atlas, glôb, dillad, gwisg ffansi, gleiniau, offer celf a chreffft, paent wyneb, offerynnau taro, offer digidol, llyfrau cyfair.

- **Geirfa:** llwyth, llwythau, Masai, ffermio, dathlu, traddodiadau, arferion, diwylliant, cysegredig, dawnsio, llafarganu, cerddoriaeth, patrymau, gemwaith, gleiniau, ymladdwr, gwaywffon.

- **Cymariaethau â diwylliant Cymru:** Cymharu diwylliant llwyth y Masai â diwylliant Cymru, e.e. cysylltiadau Celtaidd (gemwaith/iaith); cymharu iaith a dwyieithrwydd – Swahili/ieithoedd y llwythau; cymharu dulliau ffermio llwyth y Masai gyda dulliau ffermio yn y gorffennol yng Nghymru; cymharu gwaith rhai o arlunwyr Cymru a Kenya.